

Celf a Phensaerniaeth



Ffocws y Pwnc

Tynnu lluniau wrth arsylwi, casglu syniadau o fyd natur ar gyfer *collage*, elfennau cerflunio, celf haniaethol a defnyddio cyfryngau digidol.

Crynodeb

Mae gweithgareddau'r pwnc hwn yn datgelu i'r plant pa mor ysbrydoledig mae safleoedd claddu'n gallu bod ar gyfer prosiectau celf creadigol. Mae safleoedd claddu'n darparu ffynhonnell gyfoethog o syniadau ac ysgogiad ac yn fannau cychwyn rhagorol ar gyfer ystod o weithgareddau a phrosiectau celf sy'n rhoi mwy o ystyr i waith ymarferol y plant. Mae'r gweithgareddau'n astudio patrymau ym myd natur a siapiau cerfluniol a geometrig mewn adeiladau, strwythurau a chofgolofnau.

Mae'r gweithgareddau'n cefnogi astudiaeth yn yr ystafell ddosbarth o arlunwyr sy'n defnyddio natur fel ysbrydoliaeth, er enghraifft Andy Goldsworthy, William Morris a Henri Matisse. Maent hefyd yn cefnogi astudiaethau o arlunwyr haniaethol fel Picasso a Kandinsky, yn ogystal ag arlunwyr pensaernïol fel Antoni Gaudi.

Dyma'r gweithgareddau: Cerfio Cywrain, Arwyddion a Symbolau, Gwyllt Am Gelf, Pensaerniaeth Haniaethol.

Cysylltiadau Cwricwlwm

Mae'r pwnc hwn yn helpu i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y disgyblion mewn Celf a Dylunio a Dylunio a Thechnoleg.

CSBC

Celf a dylunio mynegiannol
Archwilio gan ddefnyddio cyfryngau a deunyddiau
Bod yn Ddychmygus

CSBC, CA1 a CA2

Sgiliau Allweddol

Ymchwilio
Cymharu
Gwrthgyferbynnu
Arsylwi
Casglu
Mynegi
Dylunio
Adlewyrchu
Cofnodi

Geiriau Allweddol

Digidol
Pensaerniaeth
Haniaethol
Gwead
Siâp



Dyfarniad John Muir

Darganfod
Archwilio
Gwarchod
Rhannu



Rhowch gynnig ar y gweithgareddau canlynol os ydych yn gweithio tuag at unrhyw un o'r bathodynau canlynol:

Enfys – Edrych a Dysgu

Beavers - Gweithgaredd Archwilio

Brownies - Arlunydd, Allan yn yr Awyr Agored

Cybiau - Gweithgaredd Arlunydd

Sgowtiaid - Gweithgaredd Arlunydd, Gweithgaredd Brwd am Gelf, Gweithgaredd Ffotograffydd, Gweithgaredd Crefft

Pensaernïaeth Haniaethol

Mae safleoedd claddu'n amgylchedd perffaith i blant astudio strwythurau ac adeiladau, gan gynnwys pyrth mynwentydd, eglwysi a chofadeiladau. Mae'r gweithgareddau a awgrymir yn annog y plant i edrych ar strwythurau o wahanol onglau ac uchderau, gan edrych am siapiau geometrig, llinellau ac onglau ynddynt. Bydd y plant yn creu brasluniau arsylwi ar y safle fel sail i brosiectau celf haniaethol yn yr ystafell ddosbarth.

Canlyniadau Dysgu

Bydd y plant yn gwneud y canlynol:

- Defnyddio llyfrau braslunio i gofnodi eu harsylwadau a'u profiadau
- Archwilio syniadau ar gyfer dylunio
- Adolygu, ailymweld a mireinio'r arsylwadau cyntaf

Adnoddau

Ffenest camera, deunyddiau tynnu llun - e.e. pensiliau, pensiliau lliw, creonau, pinnau ffelt duon blaen main, pasteli, papur, llyfrau braslunio a chamera.

Pren mesur ac onglydd.

Paratoi

Byddai'n ddefnyddiol pe bai'r plant yn gyfarwydd â gwaith arlunwyr haniaethol fel Picasso a Kandinsky, a hefyd arlunwyr pensaernïol fel Antoni Gaudi, sy'n defnyddio siapiau geometrig, llinellau, onglau ac adeiladau fel ffynhonnell o ysbrydoliaeth.

Cwestiynau Allweddol

Ydych chi'n hoffi cynllun yr adeilad a'i nodweddion? Pam?

Syniadau ar gyfer Gweithgareddau

Nodwch yr adeiladau a'r strwythurau sydd yn eich mynwent leol. Dewiswch hoff un a defnyddiwch ffenest camera i chwilio am siapiau geometrig, llinellau ac onglau arno. Ewch ar eich cwrcwd, gan fraslunio yn uchel i fyny ac edrychwch oddi tano i ddod o hyd i siapiau haniaethol neu ddarniog. Ar ôl symud ffenest y camera a dod o hyd i rywbeth rydych yn ei hoffi, tynnwch lun eich dyluniad yn eich llyfr brasluniau. Gwnewch yn siŵr eich bod yn defnyddio pren mesur ac onglydd i gael llinellau, siapiau ac onglau manwl gywir. Tynnwch luniau agos gyda chamera o bob rhan o'r adeilad. Arhoswch yn yr un lle. Bydd y lluniau fyddwch chi'n eu tynnu'n ddefnyddiol i greu collage digidol yn ôl yn yr ystafell ddosbarth.



© Audio Trails

Sesiwn i Bawb

Cymharwch eich brasluniau. Oes posib eu gwella mewn unrhyw ffordd?

Yn Ôl yn yr Ysgol

- Argraffwch y ffotograffau rydych chi wedi'u tynnu ar y safle a rhwch nhw at ei gilydd i greu collage digidol o'r adeilad cyfan sy'n cael ei astudio.
- Gofynnwch i'r plant ddefnyddio eu brasluniau i greu dyluniad haniaethol mawr. Defnyddiwch wahanol gyfryngau a blociau o liw.

